

*Patrwm cyflwyno O fis Tachwedd i fis Ebrill**Disgrifiad o'r modiwl*

Yn aml, mae gofyniad cyfreithiol mewn sawl gwlad ar gyfer asesiad ffurfiol o effaith pob prosiect seilwaith sy'n debygol o gael effaith fawr ar yr amgylchedd. Bydd y modiwl hwn yn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar fyfyrwyr i ymgymryd â gwaith asesu amgylcheddol a dehongli'r canlyniadau. Mae'r modiwl yn cwmpasu prosesau rheoli llygredd dŵr, rheoli ansawdd aer, rheoli sŵn a rheoli gwastraff solid, gan ddefnyddio amrywiaeth gyfoethog o enghreifftiau. Mae'n defnyddio modelu cyfrifiadurol er mwyn rhagweld effeithiau, ac mae'n cynnig amrywiaeth o fesurau unioni y gellir eu dewis er mwyn rheoli llygredd yn effeithiol. Gellir cymhwyso'r egwyddorion a addysgir yn y modiwl hwn yn fyd-eang.

*Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd mewn pwnc Gwyddoniaeth neu Beirianeg perthnasol (e.e. Gwyddor yr Amgylchedd, Peirianeg yr Amgylchedd, ac ati.)
- dealltwriaeth ddamcaniaethol gadarn o brosesau diogelu'r amgylchedd
- profiad helaeth o ddull rhyngddisgyblaethol o ddiogelu'r amgylchedd
- rhywfaint o brofiad ymarferol o ddiogelu'r amgylchedd
- dull brwdfrydig o ymgysylltu â myfyrwyr mewn amrywiaeth o gyfryngau, yn cynnwys cynadledda e-fwrdd gwaith.

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- cymhwyster ôl-raddedig mewn maes pwnc perthnasol
- profiad o weithio ym maes diogelu'r amgylchedd mewn amrywiaeth o sefydliadau
- arbenigedd mewn cefnogi myfyrwyr â sgiliau mathemateg
- byddai profiad o addysgu T210 neu T308 yn fanteisiol
- aelodaeth o gorff proffesiynol perthnasol.

*Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan*

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl 30 cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:

Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	4
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	6

Gall fod cyfleoedd i Ddarlithwyr Cyswllt ymgymryd â gwaith asesu cysylltiedig y ceir tâl amdano a byddwn yn cysylltu â chi ar wahân amdano os yw'n berthnasol.